At: Cyrff sector cyhoeddus Cymru
Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
Arweinwyr y Cyngor

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Gorffennaf 2022

Annwyl bawb,

**Lansio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Dros y 24 mis diwethaf, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cyrff cyflawni allweddol ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, yn ogystal â sefydliadau a grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a gyd-gynhyrchwyd â phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac sydd wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol. Mae'r camau gweithredu'n canolbwyntio ar y ddwy flynedd nesaf, ac wedi eu gosod yn erbyn y weledigaeth o ddod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun yn cynnwys meysydd polisi ar draws y llywodraeth, gan gynnwys iechyd, diwylliant, cartrefi a lleoedd, cyflogadwyedd a sgiliau, ac addysg, yn ogystal â ffocws ar arweinyddiaeth a chynrychiolaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Lansiwyd y Cynllun, sydd wedi ei lywio gan leisiau a phrofiad bywyd pobl ethnig leiafrifol ar draws Cymru ar 7 Mehefin. Gobeithiaf eich bod wedi cael cyfle i ddarllen y Cynllun. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys dolen at y ddogfen: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi'r nodau a'r camau gweithredu er mwyn i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff statudol a sefydliadau trydydd sector fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig a chreu Cymru decach a mwy cydradd i bobl ethnig leiafrifol.

Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddod yn Gymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae hon yn weledigaeth uchelgeisiol a bydd angen ymdrech ar y cyd gan bob un ohonom i fabwysiadu dull gweithredu gwrth-hiliol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol inni gyd fod yn rhagweithiol o ran adnabod a herio hiliaeth systemig ym mhob agwedd ar sut mae Cymru'n gweithio. Rhaid inni edrych sut mae hiliaeth wedi ei hymgorffori yn ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n harferion, ein rheolau ffurfiol ac anffurfiol, a'r ffordd rydym yn gweithio ac yn cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r Cynllun yn ymrwymiad sydd wrth graidd y cytundeb cydweithio gyda Phlaid Cymru, sy'n rhannu penderfyniad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwyddom fod angen inni sicrhau bod lleisiau a phrofiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cael eu clywed, ond rhaid sicrhau hefyd ein bod yn gweithredu arnynt. Rydym yn benderfynol o sicrhau nad ymarfer o ran dweud y pethau cywir yw hwn; mae'r Cynllun hwn yn alwad i weithredu, yn Gynllun i wirioneddol ddarparu ar gyfer pobl ethnig leiafrifol.

Mae gennym nodau ac amcanion penodol, yn amrywio o arferion mewnol Llywodraeth Cymru i'n newidiadau polisi uchelgeisiol ar draws adrannau hefyd. Bydd y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun o gymorth i hyrwyddo marchnad waith decach, system addysg a hyfforddiant decach, a chyfleoedd a chanlyniadau mwy cydradd i bobl ethnig leiafrifol ym mhob sector cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill, a dinasyddiaeth weithgar.


Bellach yn y cyfnod gweithredu, rydym wedi penodi Arweinydd Cyflawni i symud y gwaith ar y Cynllun yn ei flaen drwy weithio gyda phartneriaid i sefydlu Grŵp Atebolrwydd allanol, dan arweiniad yr Athro Emmanuel Ogbonna o Brifysgol Caerdydd a'r Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Diben cyffredinol y Grŵp Atebolrwydd fydd sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at nod y Cynllun drwy ddal y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif o ran beth maent yn ei gyflawni neu ddim yn ei gyflawni. Yr arweinwyr polisi hynny a'r sectorau ehangach sydd yn gyfrifol am y camau gweithredu sydd â'r cyfrifoldeb dros gyflawni.

Mae fy swyddogion yn Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n sefydlu Grŵp Herio a Chymorth Mewnol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Diben cyffredinol y Grŵp hwn fydd sicrhau cyflawniad a chynnydd amserol tuag at ddiben y Cynllun ar gyfer y camau gweithredu hynny sydd o dan reolaeth neu ddylanwad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy gyllid.

Gofynnwn ichi nawr weithio gyda ni i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac i adeiladu Cymru wrth-hiliol: Cymru y gallwn oll fod yn falch o berthyn iddi a lle y gall pawb ffynnu. O'i symud ymlaen felly, rwy'n grediniol y bydd cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus o fudd i bob dinesydd, nawr ac yn y dyfodol.

Diolch ichi am bopeth yr ydych yn ei wneud i gefnogi ein cymunedau gan fod gennych rôl bwysig i chwarae i sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, ac rwy'n gwybod y gallaf ymddiried ynddoch i barhau â'ch rolau arwain hollbwysig er mwyn cyflawni'n hamcanion.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

cc: Comisiynydd y Gymraeg
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiynydd Cymru Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
TUC Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CGGC
Athro Emmanuel Ogbonna / Andrew Goodall, Cyd-gadeiryddion, Grŵp Atebolrwydd Allanol
Cadeirydd, Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol
Fforwm Hil Cymru